HUW CEIRIOG (fl. c. 1560-1600), bardd

Enw: Huw Ceiriog
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

a brodor o sir Ddinbych a raddiodd yn ddisgybl disgyblaidd cerdd dafod yn eisteddfod Caerwys, 1568 (Pen. MS. 132 (59)). Ceir peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau, a hwnnw'n cynnwys cywyddau ysgafn i serch a natur, rhai eraill i Simwnt Thelwal o Blas y Ward, Sion Salbri o Lyweni (marwnad), ac un o fawl i Blas Moelyrch. Ceir hefyd englyn ganddo i'r eisteddfod a enwyd uchod. Cynnwys y llawysgrifau canlynol enghreifftiau o'i farddoniaeth: B.M. Add. MS. 14894, Cardiff MS. 63, Llanstephan MS 118, Mostyn MS. 145, NLW. MSS. 6496, 8330, Pen. MSS. 84, 104.

Enw Hywel Ceiriog a geir yn rhestr rhai llawysgrifau o raddedigion Caerwys yn 1568 (e.e. Pen. MSS. 121 (215), 144 (268)); ceir hefyd ymryson a fu rhwng Hywel Ceiriog, Wiliam Ll n, Ieuan Tew, a Sion Phylip, a'r ddau fardd, Wiliam Cynwal a Huw Ll n (Mostyn MS. 1 (455), N.L.W. MS. 675 (24b)). Nid ydys yn sicr eto ynghylch cysylltiad y ddau enw.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

'Gweirydd ap Rhys,' *Hanes Llenyddiaeth Gymreig, 1300–1650* (1885)

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Huw Ceiriog

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13129191

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu